Cilgerran Action Plan

March 2009

Ariennir a hwylusir Gweithredu dros Gymunedau Gwledig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Rural Community Action is funded and facilitated by the Welsh Assembly Government

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNLLUN GWEITHREDU CYMUNEDOL (DRAFFT)

Ar gyfer Cilgerran 2009

Paratowyd mewn cydweithrediad â

Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu

TABL CYNNWYS

CYNNWYS	TUD
Cefndir y Cynllun Gweithredu	1
Ardal y Cynllun Gweithredu	1
Lle Arbennig	2
Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol	2
Rhoi'r Cynllun ar Waith	3
Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol	4
Yr Amgylchedd, Gwelliannau ac Ailgylchu	8
Treftadaeth a Hanes	9
Menter, Busnes a Thwristiaeth	11
Gwastraff, Ynni a Thrafnidiaeth	12
Gweithredu/ Gweithgorau	13
Y Darlun Ehangach	14

Ymgorfforwyd darganfyddiadau a chanlyniadau holiadur cymunedol i'r Cynllun Gweithredu hwn a ddosbarthwyd i'r holl drigolion cyn ei drafod a'i fabwysiadu adeg cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2009

Cefndir y Cynllun Gweithredu

Cymuned, wledig Yw Cilgerran, syn agos i Aberteifi, ac yn ffinio Bryniau'r Preselau. Mae'r gymuned yn cynnwys pentrefannau cyfagos Pen-y-bryn, Rhoshill Llantood, Glanrhyd a Bridell.

Yn 2009 fe benderfynodd y gymuned lunio Cynllun Gweithredu – ym 1997, cynhaliwyd Gwerthusiad Cymunedol yn seiliedig ar ymarfer archwilio gan Fenter Preseli, felly teimlai'r gymuned mai dyma'r amser i ddiweddaru'r wybodaeth.

Cynhaliwyd dau weithdy Creu Gweledigaeth Gymunedol ym mis Ionawr 2009 dan ofal PLANED. Fe wnaethant gynorthwyo trigolion o bob oed a chefndir i edrych o'r newydd ar anghenion a dyheadau'r pentref. Cafwyd y gweithgareddau a ganlyn adeg y Gweithdai Creu Gweledigaeth:

- Rhywbeth Arbennig – rhinweddau arbennig cymuned Cilgerran.
- Archwiliad Cymunedol – rhestru'r prif nodweddion a chyfleusterau
- Darlun Ehangach o'r Gymuned – ystyried materion lleol a byd-eang
- Gwendidau, Bygythiadau, Cryfderau a Chyfleoedd
- Y Weledigaeth ar gyfer 2019 – Cilgerran yn y dyfodol.
- Archwiliad Sgiliau ac Adnoddau – dangos yr amrywiol sgiliau sydd ar gael yn lleol
- Rhoi'r Syniadau ar Waith - defnyddio'r wybodaeth i gynllunio prosiectau

Ymgorfforwyd darganfyddiadau a chanlyniadau holiadur cymunedol i'r Cynllun Gweithredu hwn a ddosbarthwyd i'r holl drigolion cyn ei drafod adeg y cyfarfod cyhoeddus.
Ymhlith y rhesymau a ddaeth i law dros beidio â mynychu'r cyfarfod oedd diffyg gofal plant, cyfrifoldebau gofal eraill a gweithio sifftiau.

Fe wnaeth cyfanswm o 57 o deuluoedd ymateb i'r holiadur cymunedol, hynny'n cynrychioli 94 o bobl. Roedd 51 ohonynt yn 60 oed+, 26 ohonynt rhwng 41 a 59 oed, 17 rhwng 18 a 40 oed ac 21 yn bobl ifanc dan 18 oed. Mae 23 o deuluoedd yn byw yn y gymuned ers dros 16 o flynyddoedd, tra bod 24 teulu wedi byw yn ardal Cilgerran rhwng 6 a15 mlynedd. Bu'r gweddill yn byw yno am lai na 5 mlynedd. Ymhlith y rhesymau dros symud i'r gymuned yn y lle cyntaf, os nad oeddent wedi'u magu yno, oedd gwell ansawdd bywyd a ffordd o fyw, cymuned gyfeillgar, cyflogaeth leol, ymddeoliad, bod yn agos at deulu a dychwelyd i'r man lle'u ganwyd. Ymhlith y rhesymau dros symud ymaith o'r gymuned oedd diffyg tai fforddiadwy, rhesymau teuluol, addysg a chyflogaeth.

Ardal y Cynllun Gweithredu

Mae cymuned hanesyddol, gwledig Cilgerran sydd wedi ei leoli yng ngogledd ddwyrain Sir Benfro, tua thair milltir i'r de ddwyrain o Aberteifi, yn cynnwys 1118 o drigolion. Credir y daw'r enw Cilgerran o 'Cil Gerran' (man cuddio neu 'encil').

Mae Cilgerran yn bennaf yn cynnwys un stryd fawr sydd tua milltir o hyd. Rhed tai ar hyd y stryd hon yn ogystal â dwy siop, tri thŷ tafarn, bwyty, swyddfa bost ac ysgol. Mae'r troad tua'r gogledd sydd nesaf at Fwyty Cegin y Castell, yn arwain at Eglwys Llawddog Sant sydd ar ochr orllewinol y pentref. Mae'r gan yr Eglwys faen hir o'r 5ed ganrif gydag arysgrifau Ogam. Hefyd oddi ar yr heol hon Saif Castell Normanaidd darluniadwy yn ei falchder uwchlaw'r afon Teifi, a rhed yn gyfochrog â'r pentref o'r dwyrain i'r gogledd i'r aber

islaw Aberteifi. Gorwedda'r Mason's Arms yr ochr arall i'r pentref, gydag un o'r amryw chwareli wedi ei lleoli tua dwyrain y pentref.

Yng nghanol y pentref saif carreg y mileniwm ac wrth ei hochr claddwyd blwch sydd i'w agor yn y flwyddyn 2050

Mae nifer o ffermydd mawr a phlas "gothig domestig" Rhos y Gilwen yn nodi natur gyfoethog, amaethyddol a threftadaeth yr ardal. Bu chwarela cerrig a llechi yn rhan bwysig iawn o'r economi lleol am gannoedd o flynyddoedd oherwydd ei agosrwydd at borthladd Aberteifi, a fu unwaith yn ganolfan longau bwysig. Mae yna tua 10 o chwareli llechi yn yr ardal, ond dwy yn unig fu wrthi'n cynhyrchu'n sylweddol, sef chwareli Cilgerran a Fforest. Mae chwarel y Cefn dal i fod yn weithredol ar raddfa fach.

Mae llwybrau cyhoeddus yn mynd yn groesymgroes ar draws y tir ac mae arwyddbyst yn nodi'r teithiau cylchol o amgylch y pentref. Tua'r gogledd a'r de, gorwedda amryw goetiroedd. Y tu hwnt i'r coetiroedd hyn tuag at ogledd y pentref ceir hyd i'r Ganolfan Bywyd Gwyllt, gwarchodfa natur bywyd gwyllt 264-erw sy'n swatio yng nghanol cefn gwlad godidog, ar lannau'r Afon Teifi.

Lle Arbennig

Yn ystod y gweithdai Creu Gweledigaeth Gymunedol rhestrwyd rhinweddau hanfodol Cilgerran, yn eu plith, cymuned gadarn, gyfeillgar, diogel sydd â Chyngor Cymuned a grwpiau cymunedol gweithgar sy'n cynnwys cyfuniad da o bobl hen ac ifanc sy'n byw a gweithio gyda'i gilydd mewn harmoni. Mynegwyd hefyd falchder yn harddwch y lleoliad naturiol, hanes lleol a'r Iaith Gymraeg.

Yn anad dim, fe wnaeth y gymuned ddatgan eu hymdeimlad o ysbryd cymunedol - lle mae pobl yn derbyn croeso, teimlo'n ddiogel, ac yn medru siarad â, a gofalu am ei gilydd; yr hen a'r ifanc mewn cymuned hynod o fywiog a gweithredol. Mae'r amryw weithgareddau a grwpiau cymunedol sy'n bodoli yn y pentref, megis Wythnos Gŵyl Cilgerran, Bingo, Bowlio, Dathliadau Gŵyl Ddewi a'r Clwb Mercher, y Fforwm Ieuenctid, Clwb Ieuenctid ac Actorion Cilgerran, yn dystiolaeth o'r ysbryd cymunedol cadarn sy'n bodoli.

Amgylchynir y pentref gan dirwedd odidog, yn ymestyn o'r Afon Teifi, lle defnyddir cwryglau i bysgota hyd heddiw, i'r Parc Bywyd Gwyllt, sy'n denu nifer o wahanol fathau o fywyd gwyllt fel glas y dorlan a dyfrgwn at fryniau tonnog y Preselau. Defnyddir byfflo dŵr i helpu i reoli'r dolydd. Mae'r ffaith bod y pentref newydd dderbyn statws cenedlaethol "Croeso i Gerddwyr' drwy waith caled ar ran grŵp lleol o gerddwyr brwd, sy'n dangos gymaint y mae'r gymuned yn gwerthfawrogi'r dirwedd sydd heb ei difetha.

Mae'r amgylchedd a'r dreftadaeth hynafol adeiledig hefyd yn bwysig i'r gymuned gan fod Cilgerran yn un o'r ychydig bentrefi yn Sir Benfro sy'n medru brolio bod ganddynt Gastell Normanaidd a saif yn uchel ar frig creigiog yn edrych dros yr Afon Teifi sy'n ymdroelli oddi tano. Mae Eglwys Llawddog Sant hefyd yn doreth o hanes a threftadaeth gan fod yno faen hir o'r 5ed ganrif, ag arni arysgrifau Ogam sydd i'w gweld heddiw. Mae'r gymuned hefyd yn falch iawn o'r gwasanaeth wythnosol a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr eglwys hyd at heddiw.

Roedd nifer o'r trigolion yn gwerthfawrogi'r pentref oherwydd ei allu i barhau'n gadarn a hunangynhwysol gyda chymaint o gyfleusterau fel neuadd y pentref, neuadd gyngerdd,

MUGA, parc, cae pêl-droed, ysgol, pedwar tŷ tafarn, bwyty, swyddfa bost a siopau, yn enwedig gan fod Aberteifi gyda'i holl gyfleusterau a'i siopau cadwyn tair milltir i ffwrdd.

Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol

Mae'r weledigaeth sydd gan drigolion ar gyfer dyfodol y pentref yn un sy'n diogelu a gwella'r mannau gwyrdd (y parc, caeau chwarae, llwybr yr afon, llai o ddatblygu preswyl) a'r amgylchedd adeiledig (adfer Capel Penuel mewn ffordd sensitif) ond ymarferol er mwyn i'r gymuned fedru eu defnyddio fel cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau. Mawr yw'r galw am gyfleusterau fel maes parcio, toiledau cyhoeddus, biniau sbwriel a biniau cŵn a chaffe/canolfan gelfyddydau. Ymhlith y gweithgareddau hynny yr hoffai pobl eu gweld ymhen deng mlynedd y mae clwb pêl-droed, clwb ieuenctid, clwb hanes a chôr. Cyflwynwyd eu syniadau fel a ganlyn gan drigolion lleol:

- Llai o ddatblygu preswyl er mwyn diogelu'r mannau gwyrdd naturiol yn y pentref.
- Mwy o weithgareddau cymunedol, yn enwedig ffurfio clybiau fel clwb pêl-droed, clwb ieuenctid, clwb hanes a chôr.
- Ystyriwyd bod cyfleusterau i blant a phobl ifanc yn bwysig, gan gynnwys ailwampio'r parc ac adeiladu lloches a pharc sgrialu ar gyfer ieuenctid ger yr Ardal Chwaraeon Amlddefnydd.
- Croesewir gwelliannau i lwybr yr afon a datblygu palmant/llwybr beicio i'r ganolfan bywyd gwyllt.
- Mae'r gymuned yn teimlo'n gryf ynglŷn â chreu mwy o fannau gwyrdd, a allai gynnwys rhandiroedd neu fannau cyfarfod/ymgynnull i bobl o bob oed.
- Hoffai nifer fawr o drigolion weld maes parcio yn y pentref er mwyn datrys y materion parcio, diogelwch ffyrdd a thrafnidiaeth a achosir ar hyn o bryd gan barcio ar ochr y ffordd trwyddi draw, drwy'r pentref.
- Mae hefyd angen toiledau cyhoeddus a biniau cŵn/sbwriel yn y pentref.
- Mae angen gwell cysylltiad Band Llydan.
- Byddai uwchraddio neuadd y pentref i gynnwys dolen glyw ar gyfer y rheiny sy'n drwm eu clyw yn fanteisiol, a gellid hefyd ailgyflwyno'r feddygfa.
- Byddai gosod hysbysfyrddau mwy o faint i gyfleu gwybodaeth y pentref yn gwella'r modd o gyfathrebu; darparu allweddi ar gyfer yr hysbysfyrddau ar gyfer holl ddefnyddwyr rheolaidd.
- Roedd yna gynnwrf sylweddol ynghylch y syniad o ddatblygu'r adeiladau segur yn y gymuned megis Capel Penuel, a allai gael ei adnewyddu er mwyn creu canolfan amlbwrpas hy caffe, canolfan ieuenctid, oriel/canolfan gelf.

Rhoi'r Cynllun ar Waith

Er gwaetha'r ffaith mai cymuned gymharol fechan yw Cilgerran sy'n agos iawn i Aberteifi, dengys nifer o drigolion Cilgerran gwir ymrwymiad i fywyd cymunedol, drwy wneud y mwyaf o'r hyn sydd eisoes ar gael, sef yr ysgol, eglwys, capeli, tafarnau a siopau, yn ogystal â datblygu cyfleusterau pellach.

Ar ddiwedd yr ail weithdy, fe wirfoddolodd nifer sylweddol o bobl (13), boed hen ac ifanc i ffurfio Fforwm Cymunedol. Eu gobaith yw y bydd y broses Cynllun Gweithredu yn annog eraill i gymryd rhan a helpu i wireddu prosiectau fel canolfan gymunedol/treftadaeth Penuel.

Nodir y syniadau ar gyfer gweithgareddau yn y Cynllun Gweithredu a fydd yn destun ymgynghoriad cymunedol eang. Bydd cyfle i gytuno ar newidiadau terfynol adeg cyfarfod cyhoeddus, a bydd y broses yn darparu cyfle newydd i bobl leol gymryd rhan.

Mae ffurfio Fforwm cymunedol i ddatblygu cynigion y cynllun gweithredu yn ffordd ragorol o gynnwys pobl o bob oed a chefndir. Mae asiantaethau cyllido angen tystiolaeth o gyfranogiad cymunedol - mae Cynllun Gweithredu a hyrwyddwyd gan Fforwm Cymunedol gweithredol yn fan cychwyn defnyddiol iawn.

Bydd Planed a'i bartneriaid yn cynorthwyo i weithredu'r Cynllun Gweithredu. Gyda'i gilydd maent yn medru cynnig cymorth arbenigol a chyllid ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gwelliannau, cadwraeth amgylcheddol a dehongli hanes lleol.

Cafodd y materion a godwyd adeg y gweithdai eu grwpio i themâu eang yn y Cynllun Gweithredu hwn. Lle'n briodol maent yn cyfeirio at gynigion penodol ar gyfer safleoedd penodol.

Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

Sylwadau:
Neuadd y pentref, Rhos y Gilwen, ystafell yr eglwys, yr ysgol, y Cardiff Arms a'r Parc Bywyd Gwyllt yw'r prif gyfleusterau a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau yng Nghilgerran.

Mae neuadd y pentref yn adnodd cymunedol pwysig sy'n cael ei defnyddio'n gyson. Fe'i hailwampiwyd 9 mlynedd yn ôl drwy stamina, nerth ac undod y gymuned. Roedd angen £250,000 i gwblhau'r gwaith ailwampio a llwyddwyd i ddiogelu cyllid gan gronfa'r Loteri Genedlaethol - "Neuaddau'r ugeinfed ganrif ar hugain yng Nghymru" a dderbyniodd 400 o geisiadau cenedlaethol, 47 yn unig fu'n llwyddiannus. Daeth symiau eraill o arian o gronfa PCRS (Cynllun Adfywio Cymunedol Sir Benfro) ac amrywiaeth o elusennau eraill. Diogelwyd 10% o'r cyfalaf cyffredinol oedd ei angen sef £25,000 a hynny dros gyfnod o bedair blynedd, o ganlyniad yr amrywiol ddigwyddiadau a gynhaliwyd i godi arian, a hynny gan y gymuned ar gyfer y gymuned, yn amrywio o Wythnos Gŵyl Cilgerran a boreau coffi, i yrfâu chwist a chasgliadau. Ail agorwyd neuadd y pentref yn y flwyddyn 2000 ac ers hynny aeth o nerth i nerth. Mae'r neuadd wedi ei lleoli ar ochr ddwyreiniol y pentref gyferbyn â theras o dai newydd; caiff ei hamgylchynu gan ffens frown sy'n ffinio'r maes parcio. Rhydd hysbysfwrdd cymunedol a phanel treftadaeth deimlad cyfeillgar a chroesawgar i'r safle.

Cynhelir y gweithgareddau a'r grwpiau a ganlyn yn neuadd y pentref: Clwb Mercher, Cymdeithas Cymraeg, Actorion Cilgerran (drama amatur), Clwb Bowliau, Cyngor y Gymuned, Pwyllgor Neuadd y Pentref, Ysgol Feithrin, Cylch Ti a Fi, Fforwm Ieuenctid, Aerobeg, Pwyllgor Iaith a Threftadaeth, Cynllun Cymdogion Da, Bingo, Croeso i Gerddwyr, Yoga, Therapi Amgen, Clwb Cerddoriaeth a Chlwb Ieuenctid.

Arferwyd cynnal meddygfa wythnosol yn neuadd y pentref, Cilgerran ond rhaid oedd ei therfynu. Hoffai nifer o bentrefwyr petai'r gwasanaeth yn cychwyn unwaith yn rhagor. Mae'r llyfrgell deithiol yn ymweld â'r pentref yn rheolaidd.

Er bod gan neuadd y pentref enw da iawn, mae rhai pobl yn cael anhawster i weld y llwyfan o gefn y neuadd adeg cyngherddau, gan deimlo byddai llwyfan uwch yn datrys y

broblem. Hefyd, nid yw'r acwstig yn y neuadd ymhlith y gorau ac fe all fod yn broblem i'r rheiny sy'n drwm eu clyw; felly byddai system dolen glyw yn fanteisiol.

Mae'r ffaith bod cymaint o weithgareddau'n cael eu cynnal, a chymaint o grwpiau'n cwrdd yn neuadd y pentref yn dangos bod y neuadd dan ei sang, felly mae angen dod o hyd i leoliadau eraill.

Mae yna 3 eglwys yn y gymuned, Llawddog Sant yng Nghilgerran, St. Illtyd yn Llantood ac eglwys Dewi Sant, Y Bridell. Mae yna 5 capel, Capel Penuel, Cilgerran, Y Babell, Cilgerran, Capel Glanrhyd, Capel Annibynnol Tyrhos, Rhoshill a Chapel y Bedyddwyr Pen-y-bryn, o fewn neu yng nghyffiniau'r pentref, ac maent yn parhau i gynnal gwasanaethau. Cynhelir y Clwb Gwener yn ystafell yr eglwys, Eglwys Llawddog Sant.. Locals voiced their support in making more use of this room. Fe wnaeth pobl leol ddatgan eu cefnogaeth i wneud mwy o ddefnyddio'r ystafell hon.

Lleoliad arall sy'n galluogi pobl i'w gyrraedd ar droed yw'r ysgol, sydd hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer Dosbarthiadau Addysg Cymunedol hy dosbarthiadau Cymraeg. Gan fod nifer o ysgolion ledled y sir hefyd yn cael eu defnyddio fel safleoedd cymunedol ar gyfer gweithgareddau, gallai hyn ddatrys y 'gorlif' o'r neuadd y pentref.

Nid nepell tu allan i'r pentref mae Rhos y Gilwen yn cynnal gweithgareddau fel yoga, celf a grŵp darllen yn ogystal â chyngherddau mwy. Cynhelir cyrsiau gwehyddu, troelli a lliwio yn Fferm Penwenallt a chynhelir cyrsiau megis celf a gwyddoniaeth gan Brifysgol Aberystwyth, yn y Parc Bywyd Gwyllt.

Mae maes chwarae'r plant wedi ei leoli y tu cefn i dafarn y Cardiff Arms. Dyma gyfleuster cymunedol yr hoffai Cyngor y Gymuned ei adnewyddu ac ychwanegu mwy o offer ar gyfer gwahanol oedrannau.

Mae'r MUGA (Ardal Chwaraeon Amlddefnydd) yn gyfleuster a ychwanegwyd yn ddiweddar yn y pentref. Mawr oedd y croeso iddo gan ieuenctid y pentref gan ei fod yn darparu lle iddynt gwrdd, a "chymdeithasu". Fodd bynnag, yn ogystal â hyn, hoffai'r ieuenctid petai ganddynt loches er mwyn cael lle i gwrdd pan fyddai hi'n glawio. Hoffent hefyd weld mwy o gyfleusterau a gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc sydd rhwng pedair ar ddeg a deunaw oed, fel y clwb ieuenctid a sefydlwyd yn ddiweddar yn neuadd y pentref. Byddent yn croesawu aelwyd Urdd ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau er mwyn cynnal yr iaith a'r diwylliant Cymreig; tîm pêl-droed a pharc sglefrio. Mae'r ieuenctid yn gobeithio y bydd y Fforwm Ieuenctid sydd newydd ei sefydlu, yn derbyn mwy o gefnogaeth oedolion a rhagwelant y bydd y Fforwm Cymunedol (y maen nhw'n gobeithio bod yn rhan ohono) yn ffordd o ddatblygu'r cyfathrebu rhwng y Fforwm Ieuenctid a'r Fforwm Cymunedol yn ogystal â mudiadau eraill.

Mae'r unig doiledau cyhoeddus yn y pentref wedi eu lleoli ger yr afon, ac fe'u caewyd dros dro yn ddiweddar er mwyn eu hailwampio. Fodd bynnag, mae'r gymuned o'r farn bod angen toiledau cyhoeddus yng nghanol y pentref. Mae yna si ar led bod cynlluniau ar y gweill i werthu Capel Penuel, a byddai'r gymuned yn awyddus iawn i godi arian i brynu'r capel neu ddiogelu les rhad er mwyn ei ddatblygu yn gyfleuster cymunedol a fyddai'n bodloni'r angen am doiledau a chaffe/siop yng nghanol y pentref. Byddai'r cyfleuster hefyd yn cynnwys arddangosfa treftadaeth, ac yn gwerthu cynnyrch a nwyddau lleol.

Yn ogystal â man cyfarfod, cynhelir ystod o weithgareddau cymdeithasol, gan gynnwys nosweithiau cyri a physgod a sglodion yn y tafarndai lleol. Byddai modd eu hymestyn i gynnwys noson gymdeithasol gyda'r nod o gynnig cyfleoedd i sgwrsio â phobl nad ydych yn eu hadnabod.

Teimlai rhai pobl nad oedd y gweithgareddau a'r clybiau a gynhelir ar hyn o bryd yn y gymuned yn hollol addas ar eu cyfer, hy maen nhw'n rhy hen i rai ac yn rhy ifanc i eraill felly hoffent ystyried datblygu gweithgareddau newydd ar gyfer pob oedran, naill yn neuadd y pentref neu efallai ymestyn y defnydd o'r ysgol neu adnewyddu Capel Penuel.

Ymhlith yr awgrymiadau cafwyd grŵp gwniadwaith i wneud mân atgyweiriadau i bobl eraill, hanes teuluol a grŵp hanes lleol, crefft, garddio, Sefydliad y Merched, clwb dawns, geidiau a sgowtiaid, grŵp darllen ar gyfer y sawl sy'n gweld yn rhannol, neu'r methedig, cynllun cymdogion da a grŵp cerddoriaeth siambr. Trafodwyd yr angen am fwy o weithgareddau cymdeithasol ac awgrymwyd y dylid ffurfio Pwyllgor Gweithgareddau.

Awgrymwyd adeg archwiliad sgiliau a hyfforddiant cymunedol a gynhaliwyd adeg y gweithdai creu gweledigaeth bod gan drigolion ystod eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Maent yn amrywio o glustogwaith a sgiliau turnio coed, sgiliau cyfrifiaduro a dylunio; i ysgrifennu barddoniaeth a chynlluniau busnes a gweu, trefnu blodau a sgiliau coginio.

Rhestrwyd hefyd gwybodaeth o gronfeydd data, nyrsio a sgiliau gofal a gwrando. Mae yna amrywiaeth o sgiliau ymarferol a thechnegol yn bodoli, ac roedd llawer o bobl am ennill y fath sgiliau, felly mae yna botensial i gyfnewid a datblygu gweithgareddau newydd.

Y cylchlythyr cymunedol "Corwg Cilgerran" sy'n cael ei gyhoeddi dwywaith y flwyddyn, gwefan y pentref www.cilgerran.info, yr amrywiol hysbysfyrddau, ffenestri siopau/byrddau hysbysebu a chlep a si yw'r ffyrdd pennaf o gyfathrebu. Er gwaetha'r amrywiol ddulliau cyfathrebu mae rhai pobl yn datgan bod yna ddiffyg cyfathrebu ynglŷn â'r hyn sydd ar gael yn y pentref ac mae rhai newydd-ddyfodiaid yn ei chael hi'n anodd cwrdd â phobl. Unwaith bydd y Fforwm Cymunedol yn cael ei sefydlu, mi fydd yn medru mynd i'r afael a'r materion hyn. Dywed pobl leol bod angen gwella'r gwasanaeth Band llydan ac mae'r mater yn nwylo'r cynghorydd cymunedol ar hyn o bryd.

Mae'r ymatebion i'r holiadur cymunedol yn awgrymu bod gan bobl ddiddordeb i ofalu am eu hiechyd a hoffent mwy o gyfleoedd i wneud ymarfer gorfforol. Ymhlith yr awgrymiadau a ddaeth i law i wneud hi'n haws i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol oed gwell iechyd corfforol, llai o barcio ceir ar balmentydd, dosbarthiadau dawns lleol a gweithgareddau dydd. Y ffyrdd mwyaf poblogaidd o wneud ymarfer gorfforol yw cerdded, garddio, nofio, pysgota a seiclo.

Nodwyd yn yr holiadur cymunedol bod 7 o'r rheini a ymatebodd yn gwneud defnydd o ofal plant, 5 yn gwneud defnydd o deulu agos, 1 yn gwneud defnydd o feithrinfa breifat ac 1 yn defnyddio clybiau y tu allan i oriau ysgol

Cynigion:
Cydweithio gyda Chyngor Cymuned Cilgerran (CCC), Cyngor Sir Penfro (CSP) ac asiantaethau eraill i:

- ❑ Archwilio'r posibilrwydd o ailagor y feddygfa yn neuadd y pentref.

- Ymchwilio i wella'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir ger y castell.
- Dod o hyd i safle posib ee tir ger Siop Camrose, er mwyn datblygu maes parcio yng nghanol y pentref.
- Gwella cynhaliaeth y toiledau cyhoeddus.
- Canfod safle posib ar gyfer datblygu toiledau cyhoeddus yng nghanol y pentref.
- Trafod dichonoldeb cynnwys Lloches Ieuenctid nesaf at y MUGA (Ardal Chwaraeon Amlddefnydd); mewn cydweithrediad â Chyngor y Gymuned.
- Gan weithio'n agos gyda Chyngor y Gymuned, ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu parc sgrialu yn y pentref.
- Trafod gyda Phwyllgor Neuadd y pentref ynglŷn â'r posibilrwydd o godi'r llwyfan.
- Cefnogi'r syniad o ddatblygu Capel Penuel, er mwyn creu canolfan gymunedol bwrpasol, a fyddai'n cynnwys arddangosfa dreftadaeth, cynnyrch a chaffe ac ati.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o greu cyfleusterau llyfrgell ar sail 3-4 diwrnod yr wythnos.
- Cefnogi cynlluniau'r Cyngor Ieuenctid a Chymunedol i adnewyddu lle chwarae'r plant.
- Trafod y posibilrwydd o ymgorffori Lloches Ieuenctid nesaf at yr Ardal Chwaraeon Aml-ddefnydd.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu parc sgrialu yn y pentref.
- Ailddechrau'r clwb pêl-droed /gweithgareddau tîm i ddynion a merched.
- Gan weithio gyda Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Penfro, datblygu'r cyfleoedd posib i sefydlu clybiau a mudiadau ar gyfer pobl ifanc 14-18 oed.
- Datblygu cynllun 'Oedolion Cyfeillgar' gyda'r ysgol er mwyn galluogi'r plant sy'n byw yn y pentref i gerdded i'r ysgol yn hytrach na theithio mewn car.
- Annog pobl oedrannus a phobl ifanc i gydweithio ar brosiectau.
- Cynnal arolwg gweithgareddau i ddarganfod diddordebau pobl leol a phwy fyddai'n fodlon helpu cynnal gweithgareddau newydd.
- Ffurfio Pwyllgor Gweithgareddau er mwyn sefydlu a hyrwyddo grwpiau a digwyddiadau newydd fel:
    - Bowlio awyr agored
    - Geidiau a Sgowtiaid
    - Clwb Dawns
    - Sefydliad y Merched.
    - Achlysur Cymdeithasol
    - Cynllun Cymdogion Da
    - Grŵp Gwniadwaith
    - Grŵp Darllen
- Drwy'r cylchlythyr a/neu'r wefan gymunedol, ymchwilio i'r cyfle i rannu hobïau gydag eraill.
- Annog mwy o oedolion i gefnogi'r Fforwm Ieuenctid ac ehangu llais yr ieuenctid yn y gymuned.
- Datblygu'r cyfathrebu rhwng Cyngor y Gymuned a'r Fforwm Ieuenctid, a hynny drwy'r Fforwm Cymunedol.
- Hysbysebu a chefnogi'r Clwb Ieuenctid newydd.
- Gan ddefnyddio canlyniadau'r Archwiliad Sgiliau o weithdy 2 a gwybodaeth ynglŷn â chyrsiau hyfforddi PLANED, manteisio ar gyfleodd hyfforddi anffurfiol.
- Annog mwy o bobl i gymryd rhan ym materion y pentref, drwy'r Fforwm Cymunedol.
- Sefydlu cronfa ddata o sgiliau i sicrhau cynaladwyedd wrth wneud y mwyaf o sgiliau lleol. Gwneud y mwyaf o'r cynigion yn nhermau amser a gwybodaeth leol.
- Lobio i wella'r gwasanaeth Band llydan er mwyn cynorthwyo defnyddwyr busnes a phreifat.

Yr Amgylchedd, Gwelliannau ac Ailgylchu

Sylwadau:
Mae gan Gilgerran, sydd wedi ei leoli ar lannau'r Afon Teifi, yng nghalon cefn gwlad, ac yng nghysgod y Preselau, amgylchedd cyfoethog a hanesyddol.

Mae nifer o ffermydd da byw a defaid ac erwau o dir amaethyddol yn amgylchynu'r mynedfeydd i'r pentref, sy'n dystiolaeth o'r traddodiad ffermio sydd yn fyw ac iach hyd yn oed heddiw. Gweddillion y chwareli cerrig a llechi sydd fel creithiau ar wyneb y creigiau ar hyd glannau'r afon, a'r un chwarel fach sy'n parhau i fod yn weithredol, yw'r unig dystiolaeth o'r traddodiad chwarela.

Ers cau'r chwareli, mae'r bywyd gwyllt i lawr ger yr afon yn ffynnu, ac mae nifer o bobl yn cerdded y llwybrau ochr yn ochr â'r Teifi; yma ceir cyfle i weld glas y dorlan a dyfrgwn. Teimla rhai pentrefwyr bod y fath leoliad yn agored i ddatblygu digwyddiadau glan afon a mwy o lwybrau. Mae yna bysgodfa gwrwgl draddodiadol ond cyfyngedig ar yr afon.

Mae unigolion a'r grŵp cerdded 'Croeso i Gerddwyr' yn defnyddio'r rhwydwaith da o hawliau tramwy cyhoeddus a nifer o deithiau cylch sy'n rhedeg drwy'r pentref. Mae'r grŵp cerdded yn grŵp awyddus iawn a dyfarnwyd statws cenedlaethol 'Croeso i Gerddwyr' iddynt yn ddiweddar er mwyn ceisio annog mwy o dwristiaid i fwynhau a rhannu eu golygfeydd amrywiol a naturiol. Mae'r grŵp hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Sir Penfro yn ei hysbysu ynghylch y llwybrau sy'n anhygyrch neu wedi gordyfu. Teimlwyd y byddai canllaw gerdded ar gyfer yr ardal yn ategu at y gwaith a gwblhawyd eisoes gan y grŵp.

I fyny'r afon i'r gogledd o'r pentref, mae'r Ganolfan Bywyd Gwyllt, gwarchodfa natur 264-erw sy'n gartref i nifer o rywogaethau o fywyd gwyllt. Mae gan y warchodfa lwybrau troed sy'n ymdroelli drwy gynefinoedd moch daear, byfflo dŵr a nifer fawr o famaliaid ac adar eraill.

Mae pobl leol yn uchel eu cymhelliant o ran gwerthfawrogi'r amgylchedd. Mae Cyngor y Gymuned yn aelod o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ac mae nifer o'r pentrefwyr yn falch iawn bod y Parc Bywyd Gwyllt yn rhan o'u cymuned. Mae nifer o bobl yn gwerthfawrogi tir y Castell yn nhermau'r amgylchedd gwyrdd sydd ohoni. Disgrifiwyd y castell yn llawlyfr CADW, fel "un o'r cofadeiladau mwyaf darluniadol yng Nghymru o ran lleoliad; wedi ei leoli'n uchel uwchben yr afon Teifi ar bentir creigiog". Teimla rhai trigolion lleol yn gryf iawn ynglŷn â rhai agweddau o'r amgylchedd adeiledig ac maent o'r farn y byddai modd gwella estheteg y pentref drwy dacluso tai gwag a gosod ceblau dan y ddaear.

Ymhlith yr ymdrechion cyffredinol i ofalu am yr amgylchedd, mae codi sbwriel wrth fynd allan am dro, peidio â defnyddio plaleiddiaid ac ati yn yr ardd, sefydlu ardal bywyd gwyllt mewn gerddi, compostio, a bwydo adar. Roedd yna gryn ddiddordeb yn ystod y gweithdai i gychwyn clwb garddio ac ymchwilio'r posibilrwydd o ganfod safle ar gyfer rhandiroedd i'r rheiny sydd â gerddi bach. Awgrym arall a ddaeth i law oedd datblygu lle chwarae/gwyllt yn y pentref er mwyn gwarchod y mannau gwyrdd.

Yn ystod y gweithdai, fe wnaeth y trigolion ystyried materion byd-eang fel newid yn yr hinsawdd a'r effaith sydd ganddynt ar fywyd lleol hefyd. Trafodwyd bwyd o ansawdd, o ffynonellau lleol lle'n bosib, a diogelu amrywiaethau traddodiadol. Roedd gwaredu ar ddeunyddiau pacio diangen a gwastraffu bwyd ymhlith y materion eraill a ystyriwyd yn bwysig.

Trafodwyd y materion sy'n effeithio ar bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig ar nifer o adegau, yn ogystal â gwelliannau ar gyfer y pentref. O ganlyniad awgrymwyd y cynnig i adnewyddu lle chwarae'r plant, Parc y Pwmp.

Trafodwyd y mesurau y byddai modd mynd i'r afael â hwy ar lefel leol, megis ailgylchu ac arbed ynni mewn cartrefi, gan gynnwys peiriant chwalu coed cymunedol i'r bobl leol sydd am waredu ar wastraff gardd a choed Nadolig. Mae colli gwasanaethau a siopau lleol yn achosi pryder. Trafodwyd y syniad o sefydlu siop/canolfan gymunedol dan ofal y gymuned; dengys hyn y byddai pobl leol yn fodlon cefnogi gwasanaethau lleol. Ystyrir pwysigrwydd datblygu prosiectau mewn ffordd gynaliadwy ee defnyddio contractwyr lleol a defnyddiau adnewyddadwy.

Mae cyfleusterau ailgylchu yn rhan allweddol o ddiogelu'r amgylchedd ac mae trigolion Cilgerran yn ailgylchwyr brwdfrydig, gyda rhai yn compostio hefyd. Mae cynllun 'bag oren' y Cyngor Sir yn boblogaidd.

Cynigion:
Cydweithio gyda Chyngor Cymuned Cilgerran (CCC), Cyngor Sir Penfro (CSP) ac asiantaethau eraill i:

- Cefnogi'r Grŵp 'Croeso i Gerddwyr, i
- Ddatblygu digwyddiadau a llwybrau ar lan yr afon, mewn cydweithrediad â Phwyllgor Wythnos Gŵyl Cilgerran a 'Croeso i Gerddwyr'.
- Hyrwyddo'u nodau a'u hamcanion er mwyn annog mwy o bobl i ddod yn rhan o'r grŵp cerdded.
- Ymchwilio'r posibilrwydd o gyhoeddi canllaw cerdded ar gyfer yr ardal.
- Datblygu lle chwarae/lle gwyllt yn y pentref i bawb, er mwyn diogelu'r mannau gwyrdd.
- Cynghori'r Fforwm Cymunedol ynglŷn ag unrhyw dir y byddai modd ei defnyddio ar gyfer rhandiroedd cymunedol.
- Hysbysebu a hyrwyddo cyfarfod cymunedol i bennu p'un ai fod yna ddigon o ddiddordeb i ailddechrau clwb garddio yng Nghilgerran.
- Ymchwilio'r posibilrwydd o osod ceblau sydd uwchben y ddaear ar hyn o bryd, dan y ddaear yn y pentref.
- Ymgymryd ag arolwg o lwybrau mewn cysylltiad â'r cyngor sir a thirfeddianwyr er mwyn ystyried y potensial i greu mwy o lwybrau cerdded a beicio rhwng pentref Cilgerran â'r parc bywyd gwyllt.

Treftadaeth a Hanes

Sylwadau:
Heb os, y Castell Normanaidd sy'n sefyll uwchben brig creigiog yw'r nodwedd hanesyddol fwyaf sylweddol ym mhentref Cilgerran.

I'r gorllewin o'r castell, saif Eglwys Llawddog Sant, strwythur hynafol o bensaernïaeth Seisnig gynnar, sydd mewn cyflwr cymedrol dda, gyda thŵr sgwâr tua'r ochr orllewinol; yn y fynwent saif maen hir Ogam, sy'n cynnwys arysgrif Ogam sydd bellach yn annarllenadwy. Cynhelir y gwasanaeth wythnosol yn Gymraeg yn Eglwys Llawddog Sant, sy'n amlygu treftadaeth gref ymhlith y Cymry yn y gymuned. Mae yna hefyd bedwar hen gapel yng nghyffiniau'r pentref, sef capel y Bedyddwyr, Annibynwyr, a Phresbyteraidd.

O ganlyniad y gwerthusiad cymunedol diwethaf a gynhaliwyd ym 1997, ffurfiwyd Pwyllgor Iaith a Threftadaeth, ac ers hynny cyflawnwyd nifer o brosiectau cymunedol gyda'r nod o hyrwyddo iaith a threftadaeth yn y gymuned. Maent yn gyfrifol am y cylchlythyr "Corwg Cilgerran" sy'n cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn, ac sydd hefyd yn ymddangos ar wefan y pentref. Mae'r pwyllgor hefyd wedi casglu nifer helaeth o ffotograffau sydd wedi eu storio at ddefnydd y gymuned, a chyhoeddwyd nifer ohonynt yn 2007 mewn llyfr yn darlunio cymeriadau, diwylliant a threftadaeth ardal Cilgerran. Nid oedd nifer o bentrefwyr yn sylweddoli bod yna Bwyllgor Iaith a Threftadaeth eisoes yn bodoli, a mynegwyd diddordeb mewn ymuno a grŵp hanes lleol er mwyn ymchwilio i hanes teuluol.

Mae yna dri phlasty yn y gymuned, sef Glan Duan, plasty Abel Anthony Gower, Ysgwier, y deuai'r teulu o'r diweddar Lyngesydd Syr Erasmus Gower, a fu'n gydymaith i Iarll Macartney ar ei lysgenhadaeth i Tsieina, ac a ddaeth yn enwog iawn wrth wasanaethu ei wlad yn y gwasanaeth llyngesol; Castell Malgwyn, a oedd hefyd yn eiddo i Mr Gower; a Rhos y Gilwen, y plas modern, coeth a oedd yn eiddo i John Humphreys, Ysgwier, y daeth y stad i'w feddiant drwy ei briodas â Catherine, merch y diweddar Thomas Colby, Ysgwier o Ffynnone, a gododd y tŷ presennol.

Ar lan yr afon Teifi, mae yna chwareli cerrig a llechi, tua 10 i gyd, a oedd yn adnoddau pwysig i'r economi leol a fu'n weithredol iawn dros gannoedd o flynyddoedd oherwydd eu hagosrwydd at borthladd Aberteifi a oedd unwaith yn bwysig iawn fel canolfan llongau. Cludwyd y cerrig a'r llechi yn hawdd i borthladd Aberteifi ar y Teifi, sy'n parhau i fod yn fordwyol hyd at bont Llechryd, tua thair milltir uwchlaw Aberteifi. Chwareli Fforest a Cilgerran oedd y prysuraf, y cyntaf yn rhoi'r gorau i gynhyrchu ym 1909 a'r olaf yn cau yn y 1930au; er cawsai'r stoc ei werthu yn y 1940au.

Defnyddir cwryglau hyd heddiw i bysgota ar yr afon Teifi, sydd, o bosib, yn un o'r afonydd mwyaf hanesyddol o ran pysgota cwryglau yng Nghymru. Yn ôl traddodiad, roedd gan bob pentref ei wneuthurwr cwryglau ei hun ar hyd yr afon. Yn wir, hyd yn oed heddiw, mae gwneuthurwyr cwryglau i'w gweld ym mhentrefi Cenarth, Llechryd a Chilgerran. Dethlir y ffaith hon fel rhan o Wythnos yr Ŵyl, pan gynhelir arddangosfeydd pysgota mewn cwryglau, a'r ras cwryglau byd-enwog.

Mae yna hefyd ddiddordeb cyffredinol mewn gwerthfawrogi hynodrwydd lleol, sy'n cynnwys diogelu sgiliau traddodiadol. Mae rhai pentrefwyr yn mynychu cyrsiau nyddu, gwehyddu a lliwio yn Fferm Penwenallt a hoffai llawer ohonynt weld canolfan yn y pentref sydd wedi ei neilltuo ar gyfer crefftau a doniau traddodiadol, lleol, o bosib Capel Penuel.

Cyfunir y gwahanol agweddau hyn o hanes lleol ar ffurf llwybr bentref a phaneli dehongli cysylltiol mewn mannau allweddol. Maent yn sicrhau bod hanes lleol yn cael ei ddiogelu, ac yn sicrhau bod yna gyfle i bobl leol ac ymwelwyr i'w fwynhau.

Cynigion:
Cydweithio gyda Chyngor Cymuned Cilgerran (CCC), Cyngor Sir Penfro (CSP) ac asiantaethau eraill i:

- Ynghyd â'r Pwyllgor Iaith a Threftadaeth, nodi a datblygu canolfan (o bosib Capel Penuel) i ddatblygu hanes yr ardal, a fyddai'n cynnwys:
  - Casgliad o arteffactau ac ati.
  - Byrddau Gwybodaeth

- Canolfan Dwristiaeth
- Siop Goffi
- Canolfan Ieuenctid
- Arddangosfa Gelf a Chrefft
- Toiledau ar gyfer y pentref
- Dwyieithrwydd

- Ceisio hyfforddiant a chefnogaeth gan amrywiol asiantaethau, gan gynnwys Swyddog Hyfforddiant Treftadaeth PLANED, Adran Amgueddfeydd a Gwasanaethau Diwylliannol y Sir.
- Y Pwyllgor Iaith a Threftadaeth i gysylltu â'r grŵp 'Croeso i Gerddwyr' er mwyn cynnwys gwybodaeth treftadaeth mewn canllaw gerdded ar gyfer y pentref.

Menter, Busnes a Thwristiaeth

Sylwadau:
O ystyried maint Cilgerran a'i agosrwydd at Aberteifi mae'n syndod faint o fentrau lleol sy'n bodoli yn y pentref. Mae tua saith adeiladwr a chrefftwyr sy'n gysylltiedig ag adeiladu, megis trydanwyr, plastrwyr ac addurnwyr wedi eu rhestru ar dudalennau busnes y wefan gymunedol. Mae'r mwyafrif o'r busnesau eraill yn gwasanaethu'r gymuned yn ddyddiol drwy wasanaethau fel y swyddfa bost, dwy siop groser (Siop Camrose a Siop yr Hen Dŷ Post), 4 tŷ tafarn (sef y Pendre Inn, Penybryn Arms, y Mason Arms a'r Cardiff Arms), Dog Food Dave, Garej Pendre, Warws Llieiniau Reid's a bwyty 'Cegin y Castell'. Mae trigolion yn falch iawn o'r busnesau lleol hyn ac maent yn cefnogi cynnyrch lleol.

Mae twristiaeth yn chwarae rôl gynyddol, gyda phobl yn dymuno ymweld â lleoedd mwy anghysbell er mwyn cerdded a mathau eraill o adloniant. Mae'r castell yn chwarae rhan bwysig o ran denu twristiaeth i'r pentref, ac o ganlyniad datblygwyd mentrau fel Siop Anrhegion y Castell a bwyty Cegin y Castell. Nawr bod gan y pentref statws 'Croeso i Gerddwyr', y gobaith yw y bydd nifer o'r busnesau presennol sydd wedi eu rhestru uchod, a lletyau Gwely a Brecwast yn buddio o ganlyniad y cerddwyr sy'n ymweld â'r pentref a'r ardal. Gallai hyn hefyd ddarparu'r cyfle perffaith i agor caffe/siop goffi yn y pentref ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr.

Roedd nifer o bobl yn hoff iawn o'r syniad o greu caffe/siop goffi sy'n gwerthu cynnyrch lleol a chacennau cartref. Awgrymodd eraill siop de yn gwerthu darluniau lleol, planhigion ac anrhegion a gynhyrchwyd yn lleol ac ati. Mae'n debyg bod Capel Penuel ar werth, a byddai'r gymuned yn awyddus iawn i godi arian i'w brynu neu ddiogelu les rhad er mwyn ei ddatblygu'n gyfleuster cymunedol a fyddai'n bodloni'r angen am doiledau a chaffe/siop goffi. Byddai'r cyfleuster hefyd yn cynnwys arddangosfa dreftadaeth gan fod pobl leol yn awyddus i sefydlu canolfan gelf a chrefft barhaol yn y pentref er mwyn arddangos doniau lleol; gallai hefyd fod yn lleoliad delfrydol ar gyfer gŵyl gelf flynyddol. Efallai byddai modd ei gysylltu ag Wythnos Gŵyl Cilgerran.

Cynhelir Wythnos Gŵyl Cilgerran ym mis Awst bob blwyddyn, ac ymhlith y gweithgareddau ceir arddangosfeydd pysgota cwrwgl, rasys cwryglau a phob mathau o gemau a digwyddiadau sy'n galluogi'r gymuned oll i gymryd rhan. Hysbysebir yr Ŵyl gan 'Croeso Cymru' Bwrdd Twristiaeth Cymru yn ogystal â mannau eraill.

Mae hefyd gan dwristiaeth gynaliadwy, fel gwyliau cerdded a phecynnau amgylcheddol sydd wedi eu teilwra'n arbennig, y potensial i hybu'r economi leol ond mae trafnidiaeth gyhoeddus wael a diffyg hyrwyddo yn eu rhwystro. Nid yw cysylltiadau band llydan sydd hefyd yn wael, yn helpu'r achos. Un awgrym a ddaeth i law er mwyn gwella'r modd o

hyrwyddo'r pentref, yw annog cwmnïau ffilm i ddefnyddio'r ardal gan fod yma gymaint o gestyll, golygfeydd godidog ac afonydd.

Nodwyd yn yr holiadur cymunedol bod 4 o'r rheini a ymatebodd yn berchen ar, neu'n rheoli busnes yn y gymuned, yn cyflogi 8 llawn amser a 5 rhan amser. Mae 3 ohonynt yn berchen ar eu heiddo eu hunain. Y rheswm a rhoddwyd dros beidio â chyflogi mwy o staff oedd anhawster i ddod o hyd i staff rhan amser. Byddai help gyda marchnata a chysylltiad cyflymach â band llydan yn help aruthrol i fusnesau lleol.

Cynigion:
Cydweithio gyda Chyngor Cymuned Cilgerran (CCC), Cyngor Sir Penfro (CSP) ac asiantaethau eraill i:

- Archwilio'r cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo'r pentref a chroesawi ymwelwyr o dramor ee Americaniaid drwy amlygu nodweddion arbennig megis y dirwedd olygfaol, cerdded a chyfleoedd bywyd gwyllt.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o brynu/chymryd les ar Gapel Penuel, gyda'r nod o'i droi yn gaffe cymunedol (sy'n gwerthu cynnyrch lleol) a siop grefftau (sy'n gwerthu celf a chrefft leol).
- Canfod safle posib ar gyfer sefydlu canolfan grefftau i arddangos doniau lleol.
- Canfod a datblygu canolfan gelf barhaol yn y pentref ynghyd a gŵyl gelf flynyddol.
- Lobio i wella cysylltiadau band llydan er mwyn hyrwyddo busnesau a datblygu cysylltiadau cyflymach.

Gwastraff, Ynni a Thrafnidiaeth

Sylwadau:
Mae trigolion yn ymwybodol o'r angen i reoli'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'i waredu mewn ffordd briodol ac maent yn teimlo y dylid gwneud mwy i addysgu oedolion a phlant ynglŷn ag effaith gollwng sbwriel. Gall sbwriel sy'n cael ei adael gan drigolion, ymwelwyr a'u hanifeiliaid anwes amharu ar olwg y pentref yn ogystal â pheri niwed i anifeiliaid a phlant ifanc. Felly, hoffai trigolion weld mwy o finiau cŵn ledled y pentref a mwy o finiau sbwriel y tu allan i siopau lleol.

Rhai blynyddoedd yn ôl fe aeth Cyngor Cymuned Cilgerran i'r afael â'r broblem sbwriel drwy dalu gofalwr pentref i gadw'r pentref yn daclus. Dyma un rhinwedd a nodwyd yn 2003 pan enillwyd cystadleuaeth "Pentref y Flwyddyn" a drefnwyd gan Calor. Ers hynny mae'r sbwriel wedi cynyddu'n sylweddol.

Mae yna gyfleusterau i ailgylchu gwydr, caniau, papurau newydd a dillad ym Maesllawddog ac mae yna fanc papur newydd ychwanegol wedi ei leoli ar dir Ysgol Gynradd Cilgerran. Arferai fod yna sgip ar gyfer poteli plastig yn neuadd y pentref ond oherwydd poblogrwydd y cynllun 'bag oren' nid yw'r sgip yno bellach. Cyflwynwyd y cynllun bag oren yng Nghilgerran y llynedd ac fe'i croesawyd gan y gymuned.

Fe gwynodd rhai trigolion bod yna ormod o oleuadau stryd yn y pentref, a byddai modd arbed ynni a llygredd golau petai rhai o'r goleuadau yn cael eu diffodd. Byddai hyn yn arbed arian i'r cyngor a'r trethdalwyr.

Teimlir bod nifer o bobl yn y pentref yn euog o neidio yn eu ceir yn hytrach na cherdded i brynu rhywbeth o siop y pentref neu ollwng eu plant yn yr ysgol. Nid yw Cilgerran yn

bentref mawr felly nid oes angen gyrru i leoedd sydd o fewn cyrraedd ar droed. Petai mwy o bobl yn cerdded yn hytrach na gyrru byddent nid yn unig yn gostwng eu hallyriadau ceir a chostau tanwydd, ond yn hytrach, yn cynyddu eu lefelau ffitrwydd, ac, ar y cyfan, byddai'r pentref yn le mwy diogel o lawer i gerddwyr.

Ystyrir ers tro, bod traffig yn broblem yn y pentref gan nad oes yna ddigon o fannau parcio, felly mae'r mwyafrif yn parcio ar ochr y ffordd, sydd, yn achosi tagfeydd a pherygl i'r rheiny sydd am groesi'r ffordd. Mae'r palmentydd ysbeidiol, cyfaint y traffig a thueddiad rhai gyrwyr i yrru'n gyflymach na'r terfyn cyflymder, yn effeithio ar gerddwyr yn y pentref. Byddai gwella amledd ac amserai'r gwasanaethau bysiau i Grymych ac Aberteifi yn cynorthwyo'r trigolion hynny sydd heb fynediad parod i drafnidiaeth breifat.

Yn ôl yr holiadur cymunedol, y car yw'r modd mwyaf poblogaidd o gludiant i deithio i'r gwaith, siopau a chyfleusterau. Cafwyd 40 ymateb yn datgan mai dyma eu hunig fodd o gludiant tra bod yn well gan 15 o'r rheini a ymatebodd ddefnyddio'r bws/ cludiant cyhoeddus lle'n bosib er mwyn lleihau eu hôl troed carbon, i arbed arian, fel ffordd dda o wneud ymarfer gorfforol ac osgoi problemau parcio. Ymhlith y rhesymau dros beidio â defnyddio cludiant cyhoeddus, mai diffyg gwasanaeth bws cyfleus, dim trenau, oedran a phellter hir ar droed i gyrraedd safleoedd bws.

Cynigion:
Cydweithio gyda Chyngor Cymuned Cilgerran (CCC), Cyngor Sir Penfro (CSP) ac asiantaethau eraill i:

- Ddarparu mwy o finiau cŵn drwy'r pentref.
- Cynyddu nifer y biniau sbwriel y tu allan i siopau'r pentref.
- Dechrau ymgyrch "Dim Gollwng Sbwriel" drwy godi rhybuddion mewn mannau allweddol ledled y pentref
- Gyda chymorth y Fforwm Ieuenctid, cyfathrebu gydag ieuenctid y pentref ynglŷn â phwysigrwydd codi sbwriel yn hytrach na'i ollwng.
- Trafod gyda'r Adran Goleuadau Stryd ynglŷn â'r posibilrwydd o ddiffodd rhai o'r goleuadau stryd diangen.
- Datblygu'r syniad o gynllun "Oedolion Cyfeillgar" ar gyfer cerdded plant i'r ysgol yn lle eu cludo mewn car.

Mewn cydweithrediad â'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Priffyrdd:

- Ymgymryd ag arolwg o anghenion trafnidiaeth gyhoeddus yng nghyffiniau cyffredinol Cilgerran gyda'r bwriad o annog gweithredwyr bysiau presennol i ddarparu gwasanaethau mwy priodol.
- Lle'n briodol, gwella ansawdd palmentydd lleol a'u hymestyn drwy'r pentref.
- Lleihau'r effaith y traffig sy'n teithio drwy'r pentref drwy osod mesurau ychwanegol ar gyfer gostegu traffig.

Gweithredu / Gweithgorau

Er mwyn datblygu'r Cynllun Datblygu mewn ffordd effeithiol y bwriad yw ffurfio Fforwm Cymunedol. Fe allai gweithgorau ddatblygu'r cynigion - gan gynnig adborth i'r Fforwm Cymunedol cyfan - ac mewn ymgynghoriad â Chyngor y Gymuned, cysylltu â'r darparwyr priodol ee yr Awdurdod Priffyrdd.

Gallai'r gweithgorau ganolbwyntio ar:

- Y Gymuned – cyfleusterau, gweithgareddau a chyfathrebu

- Yr Amgylchedd – gan gynnwys hawliau tramwy, ynni a gwastraff
- Treftadaeth
- Busnes a Menter
- Gweithio gyda Chyngor y Gymuned/Cyngor Sir ar:
  - Wastraff, Ynni a Thrafnidiaeth.

Mae'n bwysig bod y Grwpiau yn:
- Gweithio o fewn y Cynllun Gweithredu cytûn ac yn darparu adborth ar gyfer y Fforwm Cymunedol
- Gweithio gyda grwpiau presennol, gan gynnwys Cyngor y Gymuned ac asiantaethau.
- Cyfarfod yn rheolaidd – o leiaf pedair gwaith y flwyddyn.
- Hysbysu'r gymuned ehangach ynglŷn â' chynnydd.

Bydd PLANED a mudiadau eraill sy'n bartneriaid yn cynnig cefnogaeth, cyngor a chyllid er mwyn datblygu cynigion y Cynllun Gweithredu.

Y Darlun Ehangach

Mae **Cynllun Gofodol Cymru** yn darparu'r cyd-destun a'r cyfeiriad ar gyfer cynlluniau datblygu lleol ynghyd a gwaith byrddau gwasanaeth lleol.

O fewn y Cynllun Gofodol cyffredinol ceir **Cynllun Gofodol Hafan Sir Benfro** sy'n hyrwyddo'r weledigaeth 'rhwydwaith o gymunedau cadarn sy'n cael eu cefnogi gan economi gynaliadwy ac amrywiol sy'n ychwanegu gwerth uchel, a hynny'n seiliedig ar amgylchedd unigryw'r ardal, mynediad i'r môr ac ynni a thwristiaeth sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.'

Y Cynllun Cymunedol- Ers dechrau'r flwyddyn 2000 bu partneriaeth allweddol rhwng y sector cyhoeddus a gwirfoddol yn gweithio ar Gynllunio Cymunedol. Mae'r awdurdod lleol, Cyngor Sir Penfro, ynghyd â chefnogaeth gan bartneriaid, cymunedau lleol a phobl leol yn gyfrifol am gyflawni'r weledigaeth.

Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)- Mae Cyngor Sir Penfro yn paratoi cynllun datblygu lleol. Y CDLl yw'r cynllun cyffredinol ar gyfer Sir Benfro - gyda chefnogaeth arae o bartneriaethau, cynlluniau a strategaethau mwy manwl. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro hefyd yn datblygu ei gynllun datblygu ei hun ar gyfer Ardal y Parc Cenedlaethol.

Ei nod yw darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n fwy llyfn gan amlygu materion allweddol 'ansawdd bywyd'. Y mae'n cysylltu ag adran 'Sir Benfro -Yr Hafanau' yng Nghynllun Gofodol Cymru a gyda phartneriaid allweddol fel y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

Ymgynghorir â chymunedau ynghylch yr holl gynlluniau hyn, yn ogystal â strategaethau plismona, addysg, trafnidiaeth, tai ac ati. Mae'n bwysig bod pobl leol yn sefydlu fforwm er mwyn cyfarfod a thrafod syniadau ar gyfer y dyfodol gan ei fod yn paratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno ymatebion gwybodus i'r amrywiol ymgynghoriadau. Y mae hefyd yn galluogi cymunedau i gymryd mantais o'r gefnogaeth a'r cyllid a allai fod ar gael gan wahanol awdurdodau yn y dyfodol.